



Llais y Llan Hydref 2018

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 24th Tachwedd 2018

Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo pob Nos Llun a pob Nos Iau, 7.30 – 9.30 Neuadd Goffa

Noson Stêc y Rheilffordd pob Nos Fercher 01267253643

Noson 'Fitness Fun' Nos Fawrth 6.30 Neuadd Goffa £4

Cadw'n Heini 50+ pob Dydd Iau 2.00 – 3.00 Neuadd Bronwydd

Llyfrgell Deithiol - pob Dydd Mercher, 10.45 – 11.45, Neuadd Goffa Ffôn 01267 224830

Gwasanaeth Swyddfa Bost ar dydd Gwener 11.15 – 12.15 Neuadd Bronwydd

Gwasanaeth Swyddfa Bost ar ddydd Mawrth 2.00 - 4.00 a dydd Gwener 1.00-3.00 Bryn y Wawr

Merched y Wawr Trydydd Nos llun o'r Mis yn y Neuadd Goffa

Hydref 10 Dydd Fercher 2.00 Gwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Llanpumsaint, Eglwys Llanpumsaint

Hydref 10 Nos Fercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 01267253643

Hydref 13 Nos Sadwrn 7.30 'Meat Loaf' Neuadd Goffa

Hydref 14 Dydd Sul 2.00 Gwasanareth Diolchgarwch Capel Ffynnonhenri

Hydref 15 Ns Llyn 3.30 – 5.00 Eglwys Agored Eglwys Llanpumsaint

Hydref 16 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Hydref 19 Nos Wener Sioe Ffasiynau er budd Eglwys Sant Celynin, Bronwydd Hall

Hydref 20 Nos Sadwrn 6.30 Cwis Macmillan/Martie Curie St Peter's Hall, £5 per person

Hydref 22 Dydd Llun Clwb 60+ Neuadd Bronwydd

Hydref 28 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Hydref 28 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook Bronwydd

Tacvhwedd 3 Dydd Sadwrn 2.00 Cerdded Gie Cydweli

Tachwedd 3 Nos Sadwrn 7.30 Cyngerdd Blynnyddol ar Dachwedd Capel Tabernacl

Tachwedd 5 – 9 Twrci a Thinsel Clwb 60+

Tachwedd 6 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Tacwedd 14 Dydd Mercher 10.00 Cling Traed Neuadd Goffa

Tachwedd 14 Dydd Mercher Taith Trego Mills Clwb 60+

Tachwedd 14 Nos Fercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 01267253643

Tachwedd 16 Nos Wener 7.30 Noson Gasino a Disgo Neuadd Goffa.



Tina Conyard Photography

Rhowch Ffarwel i Jayne a Nick

Y Tymor ffrwythlon niwlog aeddfed



Tachwedd 20 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd
Tachwedd 21 Nos Fercher 7.00 PTA 'Bingo' Neuadd Goffa
Tachwedd 24 Dydd Sadwrn Ffair Nadolig Eglwys Llanllawddog
Tachwedd 25 28 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd
Tachwedd 25 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook Bronwydd
Rhagfyr 1 Dydd Sadwrn 11.00 PTA Christmas Fair Neuadd Goffa
Rhagfyr 8 Dydd Sadwrn 11.00 Cerdded Llanpumsaint
Rhagfyr 13 Dydd Iau Cyn Mwynhau ein Cinio Nadolig
Rhagfyr 23 Dydd Sul 2.00 Gwasanaeth Carolau Capel Ffynnonhenri
Rhagfyr 24 Dydd Llun 'Santa Parade' Myw o fanlion ym mis Rhagfyr Lais y Llan
Ionawr 9 Dydd Mercher 10.00 Cling Traed Neuadd Goffa

I logi'r Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri, ffoniwch Derick Lock 253524

Teyrnged i Jayne a Nick

Daeth teyrnasiad Jayne a Nick yn y Railwe i ben yn nyddiau olaf Mis Medi. Dros gyfnod o unarddeg mlynedd buont yn aelodau pwysig a dylanwadol o fywyd y pentref a'r gymuned. Gwnaeth safon uchel y bwyd a'r croeso ddenu cwsmeriaid o bell ac agos i Dafarn y Railwe. Cynhaliwyd ciniawa di-ri yno, yn enwedig at godi arian at achosion da, yn lleol a chenedlaethol. Nawr maent am newid cyfeiriad i ddilyn llwybrau gwahanol, ond yn awyddus i ddiolch i bawb am eu cyfeillgarwch a'u cefnogaeth. Ar ran pobl Llanpumsaint a'r cylch hoffai Llais y Llan gynnig diolch yn fawr iawn iddynt gan ddymuno'n dda i'r ddau am y dyfodol.

Tafarn y Railwe – Y bobol newydd.

Croeso felly i Wayne a Liz Rees wrth gymerid yr awenau ar y cyntaf o Fis Hydref. Yn honni o dref Caerfyrddin maent wedi bod yn rhedeg tafarndai ers ugain mlynedd, ac yn bwriadu cadw i gynnal Tafarn y Cwrwg yno. Fe fydd rhai pethau'n newid.

Yn gyntaf bydd y Railwe'n agor ar ddydd Llun o dri o'r gloch ymlaen.

Dydd Mawrth i Ddydd Gwener – Agor am Dri gyda bwyd o 6 o'r gloch ymlaen.

Dydd Sadwrn – Agor am hanner dydd – gyda bwyd 12 – 3 a 6 ymlaen

Dydd Sul – Agor am hanner dydd – Cinio 12—3.

Dymunwn y gorau i Wayne Liz a'r teulu yn eu menter newydd yn y gobaith o weld y Railwe yn dal i ffynnu.

Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa.

teuluoedd, ffrindiau ac aelodau o'r gymuned i fwynhau taith gerdded egniol ar hyd y llwybrau a'r pontydd cerdded newydd. Bu cyfle gyfarfod ac aelodau Innogy ynghyd ac Antur Teifi fydd yn rheoli'r Gronfa. Erbyn hyn rydym yn derbyn ceisiadau, felly os wybod mwy am y grantiau a'r canllawiau ewch i'n Gwefan yn ;- www.anturteify.org.uk <<http://www.anturteify.org.uk>>. Neu anfonwch E-bost - brechfa@anturteify.org.uk <<mailto:brechfa@anturteify.org.uk>>.

Edrychwn ymlaen at groesawu rheolwr Cronfa'r Ymddiriedolaeth sef Moisha Merry ar y 1af o Hydref 2018. Gellir cael gafael ohoni ar 01239 710238 i egluro unrhyw fater yn ymwneud a cheisiadau i'r Gronfa. Megan Greatex Antur Teifi.

Cymdeithas Les a Hamdden Llanpumsaint

Cynhaliwyd y Bore Coffi Macmillan Blynnyddol ar fore Sadwrn 22 o Fedi yn y Neuadd. Er gwaethaf y tywydd llwyddwyd i godi'r swm anrhydeddus o £322. Diolch i bawb am ddod a'r rhai wnaeth gyfrannu lluniaeth. Edrychai'r Neuadd yn hynod o bert gyda'r llieiniau bwrdd a'r holl addurniadau mewn lliwiau Macmillan.

Cynhaliwyd y Cinio Elusennol blynnyddol yn y Railwe ar nos Fawrth 25 ain o Fedi i gwblhau cyfnod prysur i'r Ymddiriedolwyr. Diolch i Jayne a Nick am wledd arall i'r deg ar hugain ohonom. Diolch iddynt hefyd am eu cefnogaeth i'r Raffl wnaeth godi £315 at gynnal a chadw'r Cae Chwarae, y lle chware, y coed a'r llwyni a'r ffiniau. Byddwn yn gweld ishe Jayne a Nick yn fawr iawn. Derick Lock

Cór Llanpumsaint a'r Cylch

Mae'r paratodau yn mynd yn eu blaen ar gyfer Cyngerdd Blynnyddol y Cór a fydd yn cael ei gynnal yng Nghapel y Tabernacl, Caerfyrddin ar nos Sadwrn, Tachwedd 3ydd 2018 am 7.30 y.h. Yn ymddangos gyda'r Cór fydd Joy Cornock Thomas, Manon Jones a Rhodri Prys Jones. Pris y tocynnau yw £10 sydd i'w cael oddiwrth unrhyw aelod o'r Cór. Taer erfyniwn am eich cefnogaeth.

Ar nos Sadwrn Rhagfyr 15 2018 fe fydd y Cór yn cymeryd rhan mewn Gwasanaeth Coffa i gynaelod ffyddlon iawn o'r Cór sef y diweddar Alison Evans. Bydd hwn yn cael ei gynnal yng Nghapel y Priordy yng Nghaerfyrddin am 7.00 y.h gyda'r elw yn mynd tuag at "Justin Time". Fe fydd rhagor o fanylion am hyn yn y rhifyn nesaf o Lais y Pentref.

Clwb Cerdded Llanpumsaint

Ar y 3dd o Dachwedd 2.00 awn i edrych ar arfordir a chamlas Cydweli. Dyma gamlas hynaf Cymru a greuwyd i allforio glo allan o'r cei yn y 18fed ganrif gan Thomas Kymer. Bellach mae'n gartref bwyiog i fywyd gwyllt ac adar prin. Parciwch am ddim ar y cei. Taith hawdd arall yw hon gyda llwybrau o safon ond ambell fan gwlyb. I gyrraedd dilynwch yr arwyddion i Gei Cydweli.

Nol gatre fyddwn ni ar yr 8fed o Ragfyr gan gychwyn o'r Railwe am 11 y bore ac yna dychwelid yno am ginio a'n Cyfarfod Blynnyddol. Edrychaf ymlaen at eich gweld ar y teithiau yma, ac os ydych am rannu ceir yna rhowch wybod i mi – carolynsmethurst@btinternet.com

Clwb Chwedeg Gwili Bronwydd

Daeth dros hanner cant i'r Cyfarfod Blynyddol ar y 24ain o Fedi eleni, ac etholwyd holl aelodau'r Pwyllgor am flwyddyn arall. Dyma'r rhaglen am weddill 2018 -

Dydd Llun 22ain Hydref - Y Parch Dorian Davies Archddeon Caerfyrddin yn siarad am Hanes Bywydau'r Saint

Dydd Llun 5ed Tachwedd - Bant a ni Bournemouth am ein pum diwrnod o Dwrci a Tinsel.

Dydd Mercher 14eg o Dachwedd - Bant i Trego Mills yn Merthyr am siopa nadolig

Dydd Llun 26ain o Dachwedd - Daw Mrs Val Newton atom unwaith eto i siarad am Yr Elusen Ddyngarol..

Dydd Iau 13eg o Ragfyr - Taith Ddirgel a Chinio Nadolig

Dim cyfarfod pellach yn Rhagfyr –

Am fanylion pellach ffoniwch Val Giles yr Ysgrifenyddes ar 01267 2 281194

C Rh A – Ysgol Llanpumsaint -- Digwyddiadau

Bingo - Yn dilyn llwyddiant yr un blaenorol penderfynwyd cael un arall ar 21ain o Dachwedd 7.00, Neuadd Goffa. Bydd mynediad am ddim a chyfle wedyn i brynu eich llyfrau cystadlu. Bydd lluniaeth wrth law felly croeso i bawb i fwynhau.

Ffair Nadolig - Rhagfyr 1af, Neuadd Goffa, 11.00 y.b. – 2.00 y. p. Bydd yna amrywiaeth o stondinau yn y Ffair Nadolig, rhai o'r Ysgol a rhai gan y cyhoedd a digon o luniaeth ar gal. Felly dewch atom unwaith eto i fwynhau. Os am gynnig stondin cysylltwch ag Emma Brown ar 07773 034461 neu brown6bz@btinternet.com <<mailto:brown6bz@btinternet.com>> .

Os ydych yn siopa ar y We gallwch helpi'r Gymdeithas drwy gofrestri ar

www.easyfundraising.org.uk/causes/Llanpumsaint

<<http://www.easyfundraising.org.uk/causes/Llanpumsaint>> PTA neu ofyn i Emma Brown i wneud y cyswllt. Hefyd os oes yna rywun yn gallu hawlio £4E ac am helpi'r gymdeithas Rieni yna cysylltwch â Becky James 253560

Clwb Bowlio Dan-Do Llanpumsaint a Nebo

Dechreuad trist i'r tymor newydd ym mis Awst wrth i ni golli un o'n haelodau hyn mwyaf parchus. Bu Alan Dentry yn aelod am amser hir iawn a theimlodd pawb y golled yn enfawr. Yn Gadeirydd i'r Clwb fe'i dyfarnwyd yn Chwaraewr y Flwyddyn 2016-17. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w wraig Marjorie, Stephen, Susan a'u teuluoedd.

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol yn y Neuadd ar 30ain o Awst ac etholwyd y swyddogion canlynol – Cadeirydd – Derick Locke. Ysgrifenyddes – Jill Edwards.

Trysorydd – Gethin Edwards. Archwilydd – Huw Williams

Capten – Gethin Edwards. Is-Gapten – Rhys Williams.

Lluniaeth – Jill Edwards Swyddogion Gwarchod Plant – Derick Locke a Huw Williams.

Llongyfarchiadau i Gethin ac Aled Edwards ar gael eu dewis i gynrychioli Cymru yn yr ornest Prydain, sydd eleni i'w chynnal yma yng Nghymru. Digwydda hyn ar y penwythnos 17eg a'r 18fed o Dachwedd ym Mro Myrddin Caerfyrddin, felly dowch lawr i gefnogi'r bechgyn. A llongyfarchwn Aled hefyd am ennill Y Fedal Efydd yng nghystadleuaeth Prydain yn Chelmsford ym mis Awst. Mae'r Clwb yn cyfarfod yn y Neuadd i ymarfer bob Nos Lun a Nos Iau o hanner awr wedi saith am ddwy awr, hyd Ebrill nesaf. Croesawn chwaraewyr newydd o bob oed o 11 i 99, gyda hyfforddwyr profiadol wrth law i estyn cyngor ac anogaeth.

I wybod rhagor ffoniwch y Cadeirydd Derick Lock 253524 neu Jill yr ysgrifenyddes 253474.

Gwynfyd y rhedwr pellter hir

O'n ni fyth yn rhedwr ac yn fy llencyndod fi oedd y diwetha' wastad yn y ras traws gwlad ac ar ôl hynny bregus fu unrhyw ymgais i gadw'n heini. Felly shwd ces i'n hunan yn rhedeg yn y bore bach ar hyd llwybrau Llanpumsaint pan oedd pawb arall yn cysgu ar wahân i ryw ffermwr ar dractor neu gath ar ei ffordd adre? Yr oeddwn wedi ceisio cadw'n weddol heini gan ymweld â'r gampfa dair gwaith yr wythnos, ond ni fu rhedeg yn rhan o'r cynllun ar wahân i ras y rhiant ar gae Ysgol.

Yna daeth tro ar fyd yn sydyn ddechrau'r flwyddyn eleni, pan benderfynais redeg ychydig ar y felin droedlath yn y gampfa wrth i mi gadw'n heini yno. Aeth o bellter dwy i bum cilometr ac yna'n fwy fyth. Er hynny mae rhedeg ar y felin droedlath yn gymharol hawdd, i chi mas o afael y tywydd a gallwch wyllo teledu wrth redeg. Profodd dechrau rhedeg yn yr awyr agored fod yn dipyn mwy anodd oherwydd rhaid dewis ble i fynd, ond daeth cyfle i fwynhau'r holl amgylchfyd.

Lap o gylch y parc a'r cwrs golf a chyn hir lan a fi i bum cilometr, ac yna o fewn rhyw chwe wythnos cyrhaeddais y deg cilometr, heb oedi ac o fewn yr awr. Bu'r profiad anhygoel i weld y wawr yn torri drwy'r niwl yn y coed, gweld cwningod yn llamu a'r pry cop yn disgleirio yn y gwllith. Braint llwyr! O ymweld â Llanpumsaint yn yr haf agorwyd cyfleoedd newydd i droedio llwybrau newydd. Ond nid hawdd oedd hi i ganfod heolydd a llwybrau diogel am y pellter oedd angen. Felly penderfynais gychwyn rownd y pentref nifer o weithiau ac yna i'r cae chwarae. Tipyn yn wahanol i adre oedd hi yn swm breff'r defaid ond prydferthwch arbennig y wlad.

Hoffwn wybod i ble mae'r rhedwyr eraill yn mynd. Oes yna lwybrau dirgel? A ellir rhedeg ar hyd yr hen reilffordd? Ble mae'r heolydd mwyaf diogel? Erbyn hyn 'rwy'n cwblhau deg cilometr yn y bore bach rhyw bedair pum gwaith yr wythnos, cyfle i feddwl ac anghofio ac yn y diwedd dod yn anymwybodol fy mod yn rhedeg o gwbl. Teimlaf lawer yn well fy iechyd wedi colli tipyn o bwysau, ac yn llawer mwy hamddenol a di-straen yn y fy ngwaith ac adre. Daw'r hydref a boreau tywyll anoddach ond 'rwy'n benderfynol o ddal ati, ac yn meddwl am gynnig hanner marathon flwyddyn nesaf. Mae rhedeg wedi fy newid fy mynd yn gyfan gwbl ac 'rwy'n dal yn ddiolchgar am y diwrnod hwnnw pan es lan ar y felin droedlath am y tro cynta'. Mark Adams

Neuadd Goffa Llanpumsaint

Dal i chwilio am Ysgrifennydd mae'r Pwyllgor. Cysylltwch â Derick Lock am fanylion y swydd ar 01267 253524. Cynhelir ein cyfarfod nesaf ar y 13eg o Dachwedd am wyth o'r gloch.

Cymdeithas Dewinwyr Gorllewin Cymru – dyddiadau'r dyfodol

Sul Hydref 28ain - Dydd ymarfer

Sul Tachwedd 25ain - Ros Briagha

Rhagfyr - Dim cyfarfod

Sul Ionawr 27ain 2019 - Shelley Underhill-Savage

Mae dewinio yn ymarfer hynod o ddiddorol a hawdd ei ddysgu a gwnaeth darddu o'r Aifft. Dewisa nifer o gwmnïau ddefnyddio dewinwyr i ganfod mwynau, olew a gwifrau trydan. Dewinia rhai pobl am ddiogelwch eu bwyd ac am straen geopathic yn eu hamgylchfyd ond hyd yn hyn agwedd bersonol yw heb gadarnhad gwyddonol. Dewch atom i Neuadd Bronwydd am 1.45yp, ac am £4 cewch baned yn y fargen. Does dim angen cyfarpar felly cysylltwch â Sandy ar 01267 253547

Cyngor Bro Llanpumsaint

‘Cyflwr blin Rhiw Graig’ meddai Pamela Jones yng nghyfarfod o’r Cyngor pan gofynnwyd iddi am ei sylw wrth drafod Unrhyw Fater Arall ar agenda cyfarfod Mis Medi (yr un oedd ei chwyn ar ddiwedd cyfarfod Gorffennaf hefyd!) wnaeth I’r Cynghorydd Dylan Jones ddweud yn ddireodus; ‘cystal I ni drefnu rasmus beics lan y rhiw, felna ma cael heolydd wedi riparol!’ Ac yn wir, felly mae’n ymddangos, oherwydd mi fydd trafndiaeth sydd yn defnyddio’r B4300 heibio I Gapel Dewi; yr heol sydd yn rhedeg I’r de o’r Afon Tywi, yn mwynhau heol llyfn a gwastad am ddegawde I ddod, a’c I’r Râs Feics o Gwmpas Prydain’ yw’r diolch!

Daw dim cyflawniad cyflym I Gynllun Gwella Trafndiaeth Llanpumsaint, oherwydd fod y Swyddog oedd a chyfrifoldeb amdano, wedi gadel ei swydd am waith rhywle arall. Tybed, a oedd ef yn teimlo’r rhwystredigaeth o gyllidebau gwan a diffyg arian I gyflawni prosiectau. Gwir yw’r ddihareb ‘yng ngên y sach y mae cynilo’ ond beth os oes twll yn ei waelod hefyd?!

Ai dyma’r amser I Llanpumsaint geisio am annibyniaeth ac yn hytrach na thalu Treth y Cyngor I’r Sir, ei gadw a gwario arian a gynilwyd yn lleol ar anghenion lleol? Ni ellir galw’r chwyldro yn Derfysg ‘Beca oherwydd defnyddiwyd y term hynny eisioes nôl yng nghanol y 19eg ganrif gan dir feddiannwyr a gweithwyr fferm a deimla rhwystredigaeth fawr pan yn mofyn calch o’r odinau, ac olwynion y ceirts yn camu a thorri wrth geisio croesu’r pyllau dyfnion ar yr heolydd. Fyddai’r Tollbyrth yn codi arian ar ddefnyddwyr yr heolydd er mwyn ei wario ar drwsiau, ond yn rhyfedd iawn, nid oedd byth arian ar gael I wneud y gwelliannau; yr un hen stori eh?

Phil Jones Clerk, 01267253512, clerk@llanpumsaint.org.uk/communitycouncil

Rhybudd twyll! -- Meddyliwch eilwaith cyn clicio!

Rhybuddiwyd nifer ohonom am dwyll ar y We, sydd ar gynnydd, gan ein Banciau, gyda chynghor pa gamau i’w cymerid er mwyn osgoi cwmpo i’r fagl. Dyma’r hyn gynigwyd i mi gan un Banc ac yn werth ei ail- adrodd yn Llais y Llan. Felly byddwch ar ddihun -

- * Byddwch yn ofalus wrth agor E-bost diarth - gan osgoi clicio rhyw atodiad er iddo edrych yn iawn.
- * Gall Atodiad sy’n edrych yn ddi-nod ddatblygu’n rhywbeth cas.
- * Archwiliwch eich Cod talu a’ch Rhif Cyfri cyn gwneud taliad.

Cofiwch hyn

Ni fydd y Banc fyth yn anfon Ebost i’ch cysylltu ag Atodiad.

Ni fyddwn byth yn gofyn am rifau Respond

Ni fyddwn byth yn anfon neges i ddweud ein bod yn diweddarau eich cyfri neu ofyn am eich manylion.

Os ydych yn amau eich bod wedi eich twyllo yna ffoniwch eich Banc ar unwaith - 0345 300 2024.

Carolyn Smethurst

Cymdeithas Rhandir Llanpumsaint

Peidiwch â bod yn daten bwdwr. Ceisiwch dyfu tato newy’ blasus a’u cyfnewid am bys awchus yn sytho’r ardd. Ac os ydych wedi hen alari ar y dwli Brexit ma’ ewch mas i’r awyr agored i arddio a chasglu ffrwythau ttres. Mae’r Gymdeithas Rhandir yn awyddus am aelodau newydd o bob oed. Yma cewch welyau uchel, twnnel poli a thŷ gwydr enfawr at eich gwasanaeth, felly croeso draw i ymuno a ni. Daw manylion pellach neu gyfle i ymweld drwy gysylltu â Keith 253375 neu Ray 253157

Defnyddio LPG am wresogi?

Mae LPG Compare yn fudiad sy'n cymhari brisiau yn y farchnad ynni, a thrwy gymhari brisiau a hwyluso newid cyflenwr, yn gallu arbed arian i chi. A hyn y gyd yn rhad ac am ddim!

Odi chi'n hapus a'ch cyflenwr presennol a'r pris i chi'n talu? Y pris ymarferol ar hyn o bryd yw 35c. Gall LPG Compare hefyd sicrhau gwell cytundeb gyda'ch cyflenwr presennol, ond rhaid eich bod allan o gytundeb neu o fewn mis i hynny. Drwy ddefnyddio eu gwybodaeth gefndirol a'u profiad o fewn y diwydiant gall LPG Compare gynnig yr ateb gore i wahanol ddefnyddwyr. Oherwydd eu maint gall LPG ddehongli'r ateb gore ac arbed arian i chi.

Felly drwy ymuno a LPG gallwch elwa, felly galwch ar 01384 883009 neu ewch i'r wefan www.lpgcompare.co.uk. Mi gysylltes i a nhw pan ddaeth ein cytundeb presennol i ben ac mi wnaethon nhw gynnig un newydd am 34c.

Carolyn Smethurst

Dyddiadau Eglwysig

Dydd Mercher Hydref 10fed - Gwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Llanpumsaint yn yr Eglwys am 2 o'r gloch. Croeso i bawb!

Sul Hydref 14eg - Bedydd Jenny a Helen Thomas yn Eglwys Llanpumsaint am 2 o'r gloch.

Dydd Llun Hydref 15fed - Eglwys Agored - Cyfle i ymlacio a mwynhau lluniaeth, straeon, crefftau a hwyl i bob oed - Eglwys Llanpumsaint eto o 3.30 hyd 5 o'r gloch.

Dydd Gwener Hydref 19eg - Sioe Ffasiwn at achos Eglwys Sant Celynin yn Neuadd Bronwydd. Tocynnau ar gael oddi wrth Ann Smith 01267 233202.

Sadwrn Tachwedd 24ain - Ffair Nadolig Eglwys Llanllawddog

Neges - Eglwysi Llanpumsaint, Llanllawddog a Sant Celynin

Byw mewn byd o newid i ni! Tra bod cariad Duw atom yn gyson a thra ein bod yn parchu ein traddodiadau, mae'r Cristion yn sylweddoli os i ni i oroesi yn y byd cyfoes, rhaid meddwl am ffyrdd newydd i gyrraedd pobl. Wedi'r cwbl aeth yr Iesu allan i'r gymuned i ymateb i'w gofynion a chynnig help llaw iddynt. Bellach nid yw'r ffordd draddodiadol o addoli ar y Sul yn siwtio pawb am wahanol resymau, ond nawr yn Llanpumsaint mae gennym gynnig arall iddynt. Felly cynigwn Eglwys Agored! Bu'r ddwy gyntaf yn hynod lwyddiannus gyda dros drigain o bobl o bob oedran yn cyrraedd.

Digwyddiad anffurfiol yw Eglwys Agored i bob enwad a phob cred. Croeso i chi droi miwn am baned a chlone gyda phobl eraill. Os ydych â diddordeb mewn crefftau neu'n awyddus am wybodaeth am yr efengyl i ni yma. Os bedyddiwyd eich plant yma, ond chi'n ei chael hi'n anodd mynychu'r Eglwys ar y Sul, yna triwch Eglwys Agored. Os mae aelod o Gapel i chi yna croeso'r run peth, wedi'r cwbl yr un Duw yw e'.

Erbyn hyn 'does na'm llawer o lefydd yn ein cymunedau yn agored i bawb o bob oedran gael cyfle i gwrdd a rhannu profiadau. Efallai mai'r Eglwys yw'r un o'r prin fannau lle gall hyn ddigwydd, felly triwch e'. Parch Gaynor 01267 253158 – I gaynor_@hotmail.com

Gofal Traed

Dyma ddyddiadau'r ddau glinig nesaf yn y Neuadd -

Dydd Mercher Tachwedd 14eg a Dydd Mercher Ionawr 9fed, 10.00.

Dylai cleifion newydd gysylltu a Gary Robinson yn ystod yr wythnos rhwng 6 a 8 y.h. ar 07789 344488 fel y dylai cleifion cyfredol sydd yn dymuno canslo eu hapwynytiadau. (gofynnir am rybudd o leiaf 24 awr, plis).

Capel Nebo

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

Capel Ffynnonhenri

Dyma fanylion y gwasanaethau am fisoedd Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2018

Hydref 14 2018 Gwasanaeth Diolchgarwch am 2.00 y.p. Parch Michael Morris

Hydref 28 2018 Gwasanaeth am 11.00 y.b. Mr. Peter Harries

Tachwedd 11 2018 Cymundeb am 2.00 y.p. Parch Tom Dafis

Tachwedd 23 2018 Gwasanaeth Undebol ym Mhenybont am 10.30 y.b.

Rhagfyr 9 2018 Gwasanaeth am 2.00 y.p. Parch Wyn Maskell

Rhagfyr 23 2018 Gwasanaeth Carolau am 2.00 y.p.

Os am fnaylion pellach cysylltwch a Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas, Ysgrifennydd ar 01267 253686

Caersalem, Llanpumsaint

Ac os Ysbryd yr hwn a gyfododd Iesu o feirw sydd yn trigo ynoch; yr hwn a gyfododd Grist o feirw a fywioch hefyd eich cyrff marwol chwi, trwy ei Ysbryd yr hwn sydd yn trigo ynoch. Rhuf 8:11

Gwasanaeth Cymraeg pob prynhawn Sul am 2pm neu 2.30pm ar wahan i Sul ola'r mis pan mae'r oedfa yn Saesneg.

Cwrdd gweddi bob prynhawn dydd Iau ac Ysgol Sul i oedolion ar fore Sul

Croeso i bawb. Am fwy o fanylion ffoniwch Eleri Morris ar 01267 253895

Maet Loaf yn dychwelid Cynhelir noson o deyrnged i Meat Loaf yn y Neuadd Goffa ar y 13eg Hydref 2018 am hanner awr wedi saith yr hwyr. Bydd tocynnau ar gael oddi wrth Shirley Davies ar ôl y 3dd o fis Medi. Erys y pris yn £12.50, felly rhowch ffon iddi os am brynu tocyn - 01267 253157.

Peniel Panthers o dan u13

Mae tymor newydd wedi cychwyn i fechgyn Peniel Panthers. Tymor diwethaf mi wnaethon orffen yng nghanol y gynghrair, roedd yr hyfforddwy'r chwaraewyr yn bles iawn o'r canlyniad a'i perfformiad.

Y tymor hwn maent wedi symud ymlaen i'r gynghrair o dan u13.

Mae nifer o aelodau'r tim wedi cynyddu y tymor hwn ac mae'r bechgyn yn chwarae ar gae maint llawn.

Dechreuodd y tymor ar yr 8fed o Fedi, ac mae'r bechgyn wedi gwneud yn dda hyd yn hyn,

08.09.2018 Peniel 5 – 2 Pontardulais 10.09.2018 Saron 0 – 4 Peniel

15.09.2018 Peniel 12 – 0 Seaside 22.09.2018 Peniel 1 - 9 Llandovery

Mae'r bechgyn yn edrych ymlaen i weddill y tymor, mae'r gemau cartref yn cael ei chwarae ar fore Sadwrn am 10:30 y bore. Croeso i unrhyw un ddod i wylïo ac i gefnogi:

29.09.2018 Peniel v Camford 06.10.2018 Kidwelly Falcons v Peniel

13.10.2018 Peniel v Drefach (Gêm cwpan) 20.10.2018 Peniel v Llandeilo

27.10.2018 Llandovery v Peniel

Hoffair clwb, rhieni â'r bechgyn ddiolch i gymuned Llanpumsaint am eu cefnogaeth parhaus.

Clwb Cant Llanpumsaint

Tynnwyd yr enwau canlynol yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor Lles ac Adloniant am Awst a Medi;

Awst - £20 Rhif 47 Nan Bowen

£15 - Rhif 75 – Rhianydd Jones- Evans

£10 - Rhif 5 - Marlene Wareham

Medi -- £20 - Rhif 5 - Delyth Brown

£15 - Rhif 77 - Vi Robinson

£10 - Rhif 73 - Brian Smethurst

Tynnir yr enwau ffodus am Hydref a Thachwedd yn y cyfarfod nesaf ar 3oain o Hydref, ond cedwir yr un fawr hyd nes bod Nadolig wrth y drws. Derick Lock 253524.

Llyfrau ar werth o hyd -

Mae yna gopiau o Hanes Llanpumsaint a Cofio a Mwy ar werth o hyd. Gellir eu cael o Dafarn y Railwe neu Nantcelynen yn Bronwydd. £10 yr un yw'r pris gyda phob elw'n mynd at elusen cancr. Gellir eu cael hefyd o law'r awdur - 07972477324 neu arwynmsdd1@btinternet.com

Heddlu

Hwn fydd fy nghyfraniad olaf i'r cylchlythyr am y dyfodol rhagweladwy gan y byddaf yn ymuno â Thîm Troseddau Gwledig Dyfed-Powys. Ar hyn o bryd, nid wyf yn gwybod pwy fydd yn gofalu am yr ardal ar fy ôl i, ond gellir cyfeirio unrhyw bryderon at Dîm Plismona Bro Caerfyrddin yng Ngorsaf Heddlu Caerfyrddin.

Bydd y Tîm Troseddau Gwledig newydd yn canolbwyntio ar faterion sy'n effeithio ar yr ardaloedd gwledig o fewn yr ardal heddlu, ac rydyn ni'n gweithio'n agos â Heddlu Gogledd Cymru, sydd wedi bod yn gwneud hyn ers 5 mlynedd. Bydd y tîm yn gweithio gydag Undebau, preswylwyr, a phob parti sydd â diddordeb personol yn y materion rydyn ni wedi cael gwybod amdanynt hyd yn hyn. Ar hyn o bryd, Heddlu a fydd wedi'u lleoli ym mhob un o'r 4 sir ond yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd wrth ymchwilio i droseddau a'u lleihau.

Byddwn ni'n canolbwyntio ar ladradau stoc ac offer, cŵn yn poenydio stoc a throseddau bywyd gwyllt. Byddwn ni hefyd yn ymweld â ffermydd ac adeiladau arunig er mwyn rhoi cyngor diogelwch. Byddwn ni hefyd yn ymweld â marchnadoedd a sioeau lleol, gan edrych ar ailadeiladu cysylltiadau â'r cymunedau hyn.

Os oes gennych unrhyw bryderon mewn perthynas â'r gymuned leol neu ar gyfer y Tîm Troseddau Gwledig, medrwch gysylltu â ni ar 101. Martin Dickenson

Mor Agos

Yr oedd y Rhingyll John Griffiths yn falch o'r saib wrth iddo fwynhau cyfnod 'nol adre wedi ymladd am dair blynedd a hanner yn y Rhyfel Gyntaf yn Ffrainc. Bu Cyngerdd Croeso Adre iddo yng Nghapel Cwmdwyfran ac yna un arall yng nghapel Nebo. Yn yr ail un daeth cyfle iddo ymweld â bedd ei fam, fu farw yn 1915 ag yntau ar faes y gad ar y pryd. Wrth gerdded adre yng nghwmni ei dad i'r Swyddfa Bost yn Bronwydd, ar y nos Sul ola'n mis Awst, teimlai'n obeithiol. Yn ôl y son 'roedd yr ymladd erchyll yn tynnu at y terfyn a gallai fod 'nol gatre cyn bo hir! Ar yr 11eg o Dachwedd daeth heddwch o'r diwedd, ond yn anffodus, er iddo fod yn lwcus ar hyd yr holl frwydrau cynt, lladdwyd John ar y 4dd o Dachwedd, wythnos union cyn yr heddwch. Aeth yn angof!

Rhai wythnosau 'nol daeth Gwenllian Jenkins o Gaerffili i olrhain achau'r teulu Griffiths yn ein hardal ac i chwilio am fedd Rachel a Daniel Griffiths (ei hen ddatcu a mam-gu) fu'n rhedeg Swyddfa Bost Bronwydd yn Brynhyfryd ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Gan i gymaint ohonynt (fu'n byw hefyd yn Pen-y-bont, Gwarnant a Dyffryn Gwili) gael eu bedyddio yng Nghwmdwyfran, tybiwyd i'r bedd fod yno. Ond na! Gallai Brian Phillips a Charlie Williams gadarnhau nad oedd claddu ym mynwent Cwmdwyfran cyn 1922. Felly ble? Dilynais fy nhrwyn a chanfod y bedd ym mynwent Capel Nebo. Ar wahân am fanylion y rhieni mae yna ychwanegiad ar ochr y garreg fedd fel a ganlyn;-

*Hefyd am eu mab Sergt John Griffiths
Welsh Regiment Yr hwn a syrthiodd Yn Ffrainc
Tachwedd 4dd 1918 Yn 34 mlwydd oed
Gwell Angau na chywilydd.*

Daw cadarnhad pellach o hyn oll mewn adroddiad yn cynnwys llun ohono yn y Jynnal ar y 13eg o Ragfyr 1918.

Pam felly yr anghofiwyd amdano wrth i eraill gael eu coffau adeg y canmlwyddiant. Daeth fwy nag un cyd-ddigwyddiad a cham ddealltwriaeth i gymylu pethau. Lladdwyd dau fachgen arall o'r enw Griffiths o'r un tŷ (Brynhyfryd Bronwydd) yn yr Ail Ryfel Byd. Wrth restr holl golledigion Sir Gaerfyrddin yn 2014 cymysgwyd lan rhwng Sergt John Griffiths Bronwydd ag un arall o'r un enw, gan yr Awdurdodau. Person hollol wahanol oedd Sergt John Griffiths a aned ar fferm Waunfawr uwchben Llanpumsaint, a enwir ar Gofeb yno. Mae Glyn Ifans wedi cadarnhau y bydd enw John Griffiths yw ychwanegu ar Gofeb Bronwydd. Ffaith ddiddorol arall yw mai aelodau o'r un teulu Griffiths yn Brynhyfryd oedd y ddau o'r Ail Ryfel Byd hefyd.
Arwyn 2018



Village Voice

October 2018

Copy Date for next Edition 24th November 2018

**Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to
info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY**

What's on in the Village – please put these dates in your diary

Every Monday and Thursday from 3 September Short Mat Bowls 7.30 – 9.30 Memorial Hall

Every Tuesday 'Fitness Fun' at the Memorial Hall at 6.30 pm. £4 per 1 hour session.

Every Wednesday Steak Night at the Railway Inn 01267 253643

Every Thursday 2.00 - 3.00 Fitness for 50+ Ladies Bronwydd Hall

Every Wednesday 10.45- 11.45 Mobile Library outside Memorial Hall, details 224830

Every Tuesday 2.00 – 4.00 and Friday 1.00 – 3.00 Mobile Post Office, layby Bryn y Wawr

Every Friday 11.15 – 12.15 Post Office Van Bronwydd Village Hall Carpark

Every Third Monday – Merched y Wawr Memorial Hall

October 10 Wednesday 2.00 Llanpumsaint School Harvest Festival Llanpumsaint Church

October 10 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – 253643 to book

October 13 Saturday 7.30 Meat Loaf at Memorial Hall

October 14 Sunday 2.00 Thanksgiving Service Ffynnon Henri Chapel

October 15 Monday 3.30 – 5.00 Open Church Llanpumsaint Church

October 16 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

October 19 Friday Fashion Show for St Celyn Church at Bronwydd Hall

October 20 Saturday 6.30 Quiz for MacMillan/Marie Curie St Peter's Hall £5 per person

October 22 Monday 60+ Club 2.00 Bronwydd Hall

October 28 Sunday 1.45 West Wales Dowers Bronwydd Hall

October 28 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn

November 3 Saturday 2.00 Walk Kidwelly Quay

November 3 Saturday 7.30 Annual Concert Llanpumsaint & District Choir. Tabernacl Chapel

November 5 – 9th Turkey and Tinsel Trip 60+ Club

November 6 Tuesday 8.00 Community Council Meeting Memorial Hall

November 14 Wednesday 10.00 Foot Clinic Memorial Hall

November 14 Wednesday 60+ Club Trip to Trego Mills

November 14 Wednesday Supper Club Railway Inn Phone 253643 to book

November 16 Friday 7.30 Casino Night and Disco Memorial Hall



Fond Farewell to Jayne and Nick

Season of Mists and Mellow Fruitfulness



November 20 Tuesday 7.00 Curry and Quiz Railway Inn £5 per head

November 21 Wednesday 7.00 PTA Bingo Memorial Hall

November 24 Saturday Llanllawdog Church Christmas Fair

November 25 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

November 25 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook

December 1 Saturday 11.00 PTA Christmas Fair Memorial Hall

December 8 Saturday 11.00 Walk Llanpumsaint

December 13 Thursday Mystery Trip and Christmas Dinner 60+ club Bronwydd

December 23 Sunday 2.00 Carol Service Ffynnonhenri Chapel

December 24 Monday Santa Parade - details in December Village Voice

January 9 Wednesday Foot Clinic Memorial Hall

January 27 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

Llanpumsaint and Ffynnonhenri Memorial Hall - To book phone Derick Lock on 253524

Tribute to Jayne and Nick

The last few days of September saw the end of Jayne and Nick's tenure of our village pub, the Railway Inn. Jayne and Nick have been a very large and important part of village life for the past eleven years and have gained a wonderful reputation, both within the village and beyond, for the quality of their food and hospitality. They have hosted many get-togethers and fund-raising events, helping to raise considerable sums of money for local charities and causes.

They are now looking forward to a change of direction and would like to thank everyone in the village for their friendship and support.

On behalf of the people of Llanpumsaint, the Village Voice would like to say a huge thank-you to them both and wish them well for the future.

The Railway Inn - has new landlords!

A very warm welcome to Wayne and Liz Rees who took over from Jayne and Nick on the 1st October. Natives of Carmarthen, they have been publicans for some 20 years, and will continue to run the Coracle Tavern in Carmarthen Town.

There will be a few changes, firstly the opening hours, which are now

Mondays from 3pm. (no food)

Tuesday to Friday open 3pm and for food from 6pm

Saturday open midday with food from 12 to 3pm then from 6pm

Sunday open midday with food from 12 to 3pm

If you fancy a breakfast club speak to Wayne or Liz, they may be able to help! There may be other changes once they settle in, but they will, no doubt, let us know. And the Christmas Menus will be available soon.

We wish Wayne, Liz and family every success with their new venture and hope that the Railway Inn will continue to thrive under their leadership.

Macmillan and Marie Curie Quiz Night

These two worthy charities are holding a Charity Quiz Night on 20th October in St Peter's Hall Carmarthen, 6.30 for 7.00pm. Teams of 4 – 6 £5 per person. There will be a raffle, bar and food will be available.

Head to Toes Footcare

The next two sessions in the Memorial Hall are on Wednesday, 14th November and on Wednesday, 9th

January. New clients should contact Gary Robinson any weekday evening between 6 – 8pm on 07789344488, as should any existing client wishing to cancel (at least 24hrs notice, please)

Llanpumsaint and District Choir

The arrangements for the Annual Concert is well in hand and it will be held in Tabernacl Chapel in Carmarthen on Saturday November 3rd 2018 at 7.30 p.m. Supporting the Choir will be Joy Cornock Thomas, Manon Jones and Rhodri Prys Jones. Tickets are £10 and can be bought from any Choir member. Your support will be greatly appreciated.

On Saturday December 15 2018 the Choir will be taking part in a Memorial Service for the late Alison Evans who was a very faithful member of the Choir. This will be held in Priordy Chapel in Carmarthen at 7.00 p.m. with the proceeds going to "Justin Time". Further details will appear in the next edition of Llais y Pentref.

BOOK CLUB LOOKING FOR NEW MEMBERS

After an enjoyable five year run our little book club came to a halt when several members moved house. Now we would like to start up again and are looking for three or four new members. Meetings are held monthly in the afternoon.

The remaining members are active older women who live in the Llanpumsaint, Llandysul and surrounding areas and are able to take turns hosting a meeting in their home a couple of times a year.

If you would like more details about how our books are chosen and meetings organised, please ask for a leaflet from Llandysul Library desk or email d.white835@btinternet.com with your contact details. Lynda

Update on works required on A484

Design proposals for a remedial scheme at the location have been finalised and contract drawings are well advanced with the remaining contract documentation currently being developed; this work being undertaken by the Council's Engineering Design Section. Consultations are currently on-going with utility companies with regard to diverting and possible protection of their apparatus. In order to undertake the proposed work, access onto adjoining private land will be required and Corporate Property will consult with the property owners in due course with a view of reaching agreements to permit access onto the said land. Provided that agreements can be reached with the adjoining landowners, following completion of the contract documentation, tenders for the work will be invited via the Council's Contracting Framework. Cllr I. Jones

LLANPUMSAINT WELFARE AND RECREATION ASSOCIATION

